Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Dragon's Daycare
# The School House
# Ysgol Tan-y-fron
# Tan-y-fron Road
# Tan-y-fron
# Wrecsam
# LL11 5SA

**Dyddiad yr arolygiad:  Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yn awdurdod lleol Wrecsam yw Dragon's Daycare. Mae wedi ei leoli ar dir Ysgol Tanyfron ac wedi'i gofrestru i ddarparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 31 o blant rhwng dwy ac un deg chwech oed.

Roedd 16 o blant ar y gofrestr yn ystod yr arolygiad. Mae un deg pump o'r plant hyn yn dair oed, y mae un deg pedwar ohonynt yn derbyn cyllid y blynyddoedd cynnar gan yr awdurdod lleol. Mae dau aelod o staff yn cynorthwyo'r rheolwr ac mae ganddynt gymwysterau priodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r ardal leol. Saesneg yw iaith yr aelwyd i bob un ohonynt, ac nid yw'r un ohonynt yn dod o gartrefi Cymraeg eu hiaith. Mae'r lleoliad wedi nodi nad oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym Mehefin 2015 a chan Estyn yn Hydref 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da ar draws yr holl feysydd dysgu
- mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau meddwl yn dda
- mae bron pob un o'r plant yn dangos lefelau da o ganolbwyntio ac ymgysylltu â'r gweithgareddau o'u dewis
- mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon cymryd eu tro
- mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i ddarparu amgylchedd dysgu gofalgar ac ysgogol
- mae ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o weithgareddau sy'n rhoi cyfleoedd diddorol a deniadol i blant ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu
- mae ymarferwyr yn darparu lefelau da o her ar gyfer plant

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- caiff y lleoliad ei reoli'n drefnus ac mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau
- caiff y lleoliad ei gefnogi'n effeithiol gan bwyllgor rheoli cryf ac ymroddgar
- mae targedau presennol ar gyfer datblygu yn berthnasol ac yn cysylltu'n dda â hunanarfarniad y lleoliad
- gwneir cynnydd llwyddiannus tuag at fodloni'r targedau hyn
- mae ymarferwyr yn rhoi sylw cadarnhaol i gyngor a chymorth gan yr awdurdod lleol
- mae gan y lleoliad berthnasoedd cryf iawn gyda rhieni a gyda'r gymuned leol

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraniadau plant at gynllunio eu dysgu eu hunain

A2 Cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant

A3 Datblygu hyder staff o ran defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg gyda'r plant trwy gydol y sesiynau.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae bron pob un ohonynt yn dangos lefelau da o ganolbwyntio wrth gwblhau eu gweithgareddau; er enghraifft, wrth wneud patrymau ar fwrdd pegiau, maent yn cymryd amser a gofal.

Mae bron pob un o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn gwrando'n astud ar storïau grŵp. Maent yn dangos diddordeb, yn gofyn cwestiynau ac yn gwneud sylwadau perthnasol sy'n dangos eu dealltwriaeth yn glir. Mae bron pob un o'r plant yn trin a thrafod y llyfrau'n ofalus a hyderus, gan naill ai ddewis gwneud hynny'n unigol neu drwy rannu llyfrau ag un neu ddau o ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu cynnar, er enghraifft wrth wneud cynlluniau yn y swyddfa adeiladu dan do neu wrth ysgrifennu rhestr i archebu pryd tecawê ar y ffôn yn y gornel gartref. Mae rhai plant yn ymdrechu'n dda i ysgrifennu eu henw ar eu gwaith yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir, er enghraifft wrth siarad am gynwysyddion sy'n llawn, yn wag neu bron yn hanner llawn wrth iddynt chwarae â dŵr neu dywod. Mae bron pob un o'r plant yn cyfrif yn hyderus ar gof i ddeg neu fwy. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif gwrthrychau yn gywir i dri, a rhai ohonynt i saith o leiaf. Mae llawer o blant yn adnabod rhifau'n gywir ac mae rhai plant mwy abl yn rhoi'r rhain yn eu trefn yn gywir.

Mae bron pob un o'r plant yn trin a thrafod ystod eang o deganau electronig ac offer TGCh yn hyderus. Defnyddiant gamera i dynnu llun o'u gwaith, ac maent yn gweithio'r chwaraeydd cryno ddisgiau i wrando ar eu hoff ganeuon. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau meddwl yn dda. Er enghraifft, wrth chwilio yn yr awyr agored am ddeunyddiau naturiol i'w gosod ar fwclis a breichledi, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwybod bod rhai pethau'n rhy drwm ac maent yn dewis dail a blodau yn hytrach na cherrig a brigau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn briodol yn ystod y sesiwn pan gânt eu hannog gan oedolyn. Maent yn ymateb i arferion dyddiol fel 'amser tacluso' a 'golchi dwylo'. Mae llawer ohonynt yn datblygu geirfa addas, a gallant enwi rhai lliwiau a rhifau. Fodd bynnag, nid yw unrhyw blant yn defnyddio geiriau Cymraeg yn ddigymell yn ystod chwarae rhydd.

Mae bron pob un o'r plant yn dangos rheolaeth dda wrth iddynt redeg a neidio ar gae'r ysgol, ac mae llawer ohonynt yn llwyddo i wneud hyn wrth lywio cerbydau ag olwynion yn fedrus o gwmpas yr ardal ddysgu yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu eu medrau echddygol manwl yn llwyddiannus pan fyddant yn defnyddio siswrn i dorri toes chwarae neu'n defnyddio pensil i dynnu llun.

## Lles: Da

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn ymgymryd â'u harferion dyddiol yn gyflym. Mae pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau clir ac annibynnol am y gweithgareddau cynlluniedig yr hoffent gymryd rhan ynddynt. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth baratoi i fynd y tu allan neu wisgo ffedogau wrth beintio neu chwarae â dŵr.

Mae perthnasoedd yn y lleoliad yn dda ac mae plant yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd a staff. Mae bron pob un ohonynt yn cyd-chwarae â'i gilydd, maent yn fodlon rhannu offer ac yn cymryd eu tro yn dda wrth chwarae gemau grŵp. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi ymlacio ac yn hyderus wrth ryngweithio ag oedolion ac maent yn siarad yn rhwydd ag ymarferwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda. Maent yn frwdfrydig ynglŷn â phrofiadau newydd, ac o bryd i'w gilydd, gwnânt awgrymiadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud, ond nid ydynt yn awgrymu syniadau eto ynglŷn â'r hyn yr hoffent ddysgu amdano yn rheolaidd. Mae bron pob un o'r plant yn ymgymryd yn falch â'r cyfrifoldeb i fod yn helpwr y diwrnod, ac maent yn helpu i ddosbarthu platiau amser byrbryd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn darparu ystod werthfawr o weithgareddau diddorol ar gyfer plant ar draws bron pob un o feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn seilio eu cynllunio ar themâu y maent yn eu haddasu yn unol â diddordebau'r plant. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd rheolaidd i blant wneud awgrymiadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei ddysgu.

Trefnir darpariaeth effeithiol i blant allu defnyddio llyfrau ar draws y lleoliad. Ceir dwy gornel lyfrau gysurus yn y ddwy ystafell dan do ac yn y ddwy ardal fach yn yr awyr agored hefyd. O ganlyniad, mae llawer o blant yn mynd ati i ddewis manteisio ar y rhain yn ystod chwarae rhydd, gan gefnogi eu mwynhad o storïau yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant greu marciau mewn llawer o feysydd dysgu, gan sicrhau bod y rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn dda.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo medrau rhifedd plant yn fuddiol trwy weithgareddau cyfrif rheolaidd a chyfleoedd i adnabod rhifau, a'u rhoi yn eu trefn. Mae cyfleoedd niferus i blant baru a threfnu yn ôl maint a lliw, ac i archwilio gwahanol siapiau. Mae ystod eang o deganau ac offer electronig yn galluogi plant i ddatblygu eu gwybodaeth a'u hyder. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon da i ddatblygu medrau plant mewn TGCh.

Rhoddir cyfleoedd da i blant wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Yn ogystal â symud o gwmpas yr ardaloedd yn yr awyr agored, mae ymarferwyr yn arwain sesiwn ymestyn ac ymarfer fer gyda'r plant cyn eu byrbryd bob bore. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn llwyddiannus pan fyddant yn peintio, yn tynnu llun ac yn canu ystod o offerynnau cerddorol, dan do ac yn yr awyr agored fel ei gilydd.

Mae ystod ddiddorol o ymwelwyr yn cyfrannu’n dda at brofiadau dysgu plant. Er enghraifft, fe wnaeth ymweliad diweddar gan hebog a achubwyd helpu’r plant i ddysgu bod angen iddynt fod yn dawel a phwyllog er mwyn peidio â chodi ofn ar eu hymwelydd.

Mae ymarferwyr yn cyflwyno plant i eirfa ac ymadroddion Cymraeg syml. Maent yn annog plant i gyfrif ac adnabod lliwiau yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid ydynt yn atgyfnerthu hyn yn gyson trwy gydol y sesiynau. Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae pob un o’r ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth dda o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cymhwyso hyn yn llwyddiannus i ddarparu ystod ddiddorol o brofiadau dysgu ar gyfer y plant. Maent yn gweithio gyda’i gilydd yn dda fel tîm cryf, ac yn rhyngweithio’n gadarnhaol â’r plant.

Mae pob un ohonynt yn canmol ac annog plant yn rheolaidd, sy’n datblygu eu hunan-barch yn llwyddiannus ac yn arwain at ddiwylliant o ymddygiad a chydweithrediad da. Mae pob un o’r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o gwestiynau penagored i annog plant i feddwl am yr hyn y maent yn ei wneud. Maent yn gwybod pryd i roi cymorth a phryd i gamu’n ôl i alluogi plant i ymchwilio drostynt eu hunain.

Mae pob un o’r ymarferwyr yn cyfrannu at y broses asesu yn llwyddiannus. Maent yn arfarnu cynnydd plant yn effeithiol ac yn cofnodi gwybodaeth yn briodol. Mae hyn yn eu galluogi i nodi camau nesaf plant mewn dysgu ac ymgorffori’r rhain mewn cynllunio yn y dyfodol. Ceir strategaethau effeithiol i hysbysu rhieni am gynnydd eu plentyn trwy sgyrsiau anffurfiol a boreau coffi rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn dda. Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn mwynhau detholiad amrywiol o fyrbrydau iach, gyda dewis o laeth neu ddŵr i’w yfed. Mae plant yn brwsio eu dannedd yn y lleoliad bob bore ac yn cymryd rhan mewn ymarferion syml. Mae gweithdrefnau da ar waith i ddatblygu dealltwriaeth plant o gynaliadwyedd. Mae plant yn ailgylchu papur ac yn cadw unrhyw fyrbryd sydd dros ben ganddynt ar gyfer ei gompostio. Maent yn gwybod bod hwn yn troi’n bridd dros gyfnod ac yn cael ei ddefnyddio i blannu hadau.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd ystyrlon i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, cymdeithasol a moesol plant. Maent yn annog gwerthoedd pwysig fel gonestrwydd, tegwch a pharch, ac o ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o’r plant yn garedig i’w gilydd.

Mae ymweliadau â thir yr ysgol ac ardal yr ysgol goedwig i chwilio am ddail a chreaduriaid bach yn helpu plant i ddatblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod a chwilfrydedd. Mae ymarferwyr yn defnyddio dathliadau fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, Sul y Tadau a Dydd Mawrth Ynyd yn effeithiol i alluogi plant i ddatblygu eu dealltwriaeth o’r byd y maent yn byw ynddo a diwylliannau ac arferion eraill.

Mae’r lleoliad yn nodi nad oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, maent wedi gweithio gydag asiantaethau

allanol yn y gorffennol, ac mae eu profiad yn sicrhau eu bod yn gallu nodi a chynorthwyo plant yn gynnar, pe bai'r angen yn codi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd gofalgar a chefnogol ble caiff pob plentyn ei werthfawrogi. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn dathlu eu hunigoliaeth. Maent yn sicrhau bod pob plentyn yn cael yr un cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu, ac yn meithrin amgylchedd ble mae oedolion a phlant yn trin ei gilydd yn deg a gyda pharch.

Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae arddangosfeydd llachar yn dathlu gwaith diweddar plant yn effeithiol ac yn creu amgylchedd croesawgar. Mae'r holl ardaloedd dysgu wedi'u gosod yn glir, ac mae ymarferwyr wedi datblygu'r gofod yn yr awyr agored yn ddychmygus i gefnogi medrau llythrennedd, rhifedd a datblygiad corfforol y plant.

Ceir digonedd o adnoddau priodol o ansawdd da, sy'n briodol i oedran. Mae ymarferwyr yn defnyddio'r rhain yn dda i greu amgylchedd dysgu ysgogol. Maent yn gwella profiadau dysgu plant ymhellach trwy ymweliadau rheolaidd ag ardal ysgol goedwig yr ysgol, y cae chwarae a'r lle chwarae.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan reolwr y lleoliad weledigaeth glir ar ei gyfer. Mae'n darparu cyfeiriad cryf ar gyfer tîm o ymarferwyr ymroddgar.

Mae pob un ohonynt yn rhannu rolau a chyfrifoldebau yn effeithiol, gan sicrhau bod y lleoliad yn cael ei redeg yn llyfn. Mae ffocws clir ar godi safonau a gwella darpariaeth, a rhoddir lle amlwg a chadarn i anghenion y plant.

Mae aelodau o'r pwyllgor rheoli yn dangos llawer o ymroddiad i'r lleoliad ac yn rhoi cymorth cadarnhaol i'r staff. Mae cadeirydd y pwyllgor yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolwr y lleoliad er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd, a chynnig cymorth ag unrhyw faterion a allai godi.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau sefydledig ar gyfer gwerthuso sy'n nodi cryfderau ac anghenion hyfforddi unigol yn effeithiol. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae staff wedi nodi bod angen iddynt wella eu gwybodaeth am y Gymraeg, a'r ffordd y maent yn ei chyflwyno.

Mae ymarferwyr yn deall ac yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, maent yn datblygu'r cysyniad o ffyrdd iach o fyw yn llwyddiannus trwy sicrhau bod plant yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach, ymarfer corff a brwsio eu dannedd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda. Maent wedi ymrwymo'n llawn i wella'r ddarpariaeth er budd y plant. O ganlyniad, maent yn cael trafodaethau parhaus am beth sy'n gweithio'n dda a pha feysydd y mae angen eu gwella. Maent yn monitro cynnydd plant yn ofalus er mwyn gwneud unrhyw newidiadau, er enghraifft symud yr ardal creu marciau o ganol yr ystafell i ardal dawelach yn y cefn, gan arwain at ddefnydd cynyddol o greu marciau gan y rhan fwyaf o blant.

Mae hunanarfarniad ffurfiol y lleoliad yn dilyn arweiniad yr awdurdod lleol ac mae'n cynorthwyo ymarferwyr wrth fyfyrio ar ddarpariaeth ac arfer yn effeithiol. Maent yn nodi blaenoriaethau perthnasol ar gyfer gwella yn dda. Mae cynllun datblygu dilynol y lleoliad yn amlinellu targedau priodol, ynghyd â graddefydd amser, camau gweithredu a meini prawf llwyddiant perthnasol. Mae ymarferwyr wedi gwneud cynnydd cadarnhaol tuag at fodloni'r targedau hyn, er enghraifft o ran datblygu medrau TGCh plant.

Mae'r lleoliad yn ymgynghori â rhieni'n briodol trwy holiadur blynyddol. Mae canlyniadau'r rhain wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r cyfle i roi eu barn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi sefydlu ystod addas o bartneriaethau sydd o fudd da i'r plant. Mae gan ymarferwyr bartneriaeth gref â rhieni ac maent yn eu cynnwys yn effeithiol yn nysgu eu plentyn. Er enghraifft, maent yn edrych ar bwnc teuluoedd ar hyn o bryd, ac wedi gofyn i rieni ddarparu gwybodaeth a lluniau ar gyfer siartiau achau. Trwy sgyrsiau dyddiol, a dewisiadau gwybodus, mae'r lleoliad yn rhoi gwybod i rieni'n rheolaidd am ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd ar fin cael eu cynnal sy'n cynnwys y plant. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r boreau coffi achlysurol pan fyddant yn gallu gweld gwaith eu plant a thrafod eu cynnydd gyda'r ymarferwyr.

Ceir trefniadau sefydledig i gynorthwyo plant wrth iddynt symud i'r ysgol. Mae'r athrawes feithrin yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd a gwahoddir plant i fynychu diwrnod chwaraeon, gweithgareddau arbennig yr ysgol goedwig ac ymweliadau â'u hystafell ddosbarth newydd. Mae hyn yn sicrhau cyfnod pontio didrafferth ac yn galluogi plant i ymgynefino'n gyflym a hapus.

Mae'r lleoliad yn ganolog i'r gymuned leol i raddau helaeth, ac mae'n gwneud defnydd da o gysylltiadau buddiol i ymestyn dysgu'r plant. Fe wnaeth ymweliad diweddar ag archfarchnad leol helpu plant i ddeall o ble y daw rhywfaint o'u bwyd. Mae cronfeydd cymunedol lleol wedi galluogi'r lleoliad i brynu glaswellt artiffisial, y bydd gwirfoddolwyr yn ei osod er mwyn i'r plant allu defnyddio'r ardal yn yr awyr agored ym mhob tywydd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn elwa ar adnoddau o ansawdd da sy'n bodloni anghenion dysgu plant yn dda. Mae ymarferwyr yn rheoli'r sesiynau'n dda, gan sicrhau bod plant yn defnyddio'r ardaloedd dan do ac awyr agored yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant defnyddiol gan yr awdurdod lleol yn rheolaidd. Nid oes gweithdrefnau ffurfiol i rannu ac arfarnu effaith yr hyfforddiant, ond mae ymarferwyr yn gwneud hynny'n anffurfiol fel rhan o'u rhyngweithio dyddiol. Mae'r lleoliad yn elwa ar gefnogaeth reolaidd yr athrawes ymgynghorol, sy'n darparu cyngor, cymorth ymarferol ac yn dangos arfer dda. Mae ymarferwyr wedi gweithio'n llwyddiannus i ddatblygu'r ardal yn yr awyr agored, ac yn ddiweddar, croesawyd grŵp o athrawon ymgynghorol i'w galluogi i rannu'r arfer dda hon.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn goruchwylio'r gyllideb yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn ystyried yr holl wariant yn ofalus i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon a'r effaith ar ddysgu'r plant.

Yng ngoleuni'r deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant, ac ystod y profiadau dysgu o ansawdd da sydd ar gael, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mary Elspeth Dyas | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg.  (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg.  Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |